

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, y mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022. Rwyf yn fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
06 Rhagfyr 2022

RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022 (“y Rheoliadau”) yn darparu ar gyfer rhyddhad trosiannol i gynorthwyo talwyr ardrethi y mae ailbrisiad ardrethi annomestig 2023 yn effeithio arnynt.
- 1.2 Mae'r Rheoliadau yn rhagnodi rheolau i'w defnyddio i gyfrifo'r swm a godir ar gyfer hereditamentau gyda chynnydd yn rhwymedigaeth ardrethi annomestig (NDR) o fwy na £300, o ganlyniad i'r ailbrisiad NDR. Mae'r rheoliadau'n gweithredu drwy leihau rhwymedigaeth trethdalwyr cymwys, gan ganiatáu i unrhyw gynnydd gael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o ddwy flynedd.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Dim.

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Gwneir y Rheoliadau o dan adran 58 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (“Deddf 1988”). Mae adran 58 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi rheolau i lywodraethu'r swm a godir ar gyfer eiddo penodol.
- 3.2 Mae adran 58(8) o Ddeddf 1988 yn darparu bod rhaid i reoliadau a wneir o dan adran 58 ddod i rym cyn 1 Ionawr yn union cyn y flwyddyn ariannol y maent yn gymwys iddi. Er mwyn cael effaith mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2023-24, rhaid i'r Rheoliadau ddod i rym cyn 1 Ionawr 2023.
- 3.3 Mae'r Rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Bydd y Rheoliadau'n cynorthwyo trethdalwyr y mae eu rhwymedigaeth NDR yn cael ei gynyddu fwy na £300, o ganlyniad i gynnydd yng ngwerth ardrethol eu hereditament, yn dilyn llunio'r rhestr ardrethi annomestig newydd ar 1 Ebrill 2023. Bydd gan drethdalwyr cymwys hawl i gael gostyngiad graddedig mewn unrhyw gynnydd yn eu rhwymedigaeth dros gyfnod o ddwy flynedd (gostyngiad o 67% yn 2023-24, a 34% yn 2024-25).
- 4.2 Er mwyn bod yn gymwys am ryddhad trosiannol, rhaid i'r hereditament:
 - fod wedi'i ddangos ar restr leol neu restr ganolog ar 31 Mawrth 2023 (y diwrnod cyn i'r rhestrau newydd a gaiff eu llunio ar 1 Ebrill 2023 gael effaith);
 - bod â chynnydd mewn rhwymedigaeth ardrethi o fwy na £300 (y trothwy de minimis y bernir bod costau gweinyddol darparu'r rhyddhad hwn yn is nag ef yn drech na'r buddion);

- peidio â chael rhyddhad o dan adran 44A o Ddeddf 1988 (ar gyfer eiddo sydd wedi'i feddiannu yn rhannol);
- peidio â bod achos y mae adran 45A o Ddeddf 1988 yn gymwys iddo (hereditamentau heb eu meddiannu: cyfradd sero); a
- bod yr un trethdalwr a oedd yn meddiannu'r hereditament ar 31 Mawrth 2023. Rhaid i'r trethdalwr hwn barhau i feddiannu'r hereditament drwy gydol y cyfnod rhyddhad trosiannol. Os nad yw, mae'r rhyddhad yn peidio â bod yn gymwys.

4.3 Os yw'r hereditament yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd angenrheidiol, yna mae lefel y rhyddhad trosiannol sy'n gymwys yn cael ei phennu gan y camau canlynol.

4.3.1 Yn gyntaf cyfrifwch y rhwymedigaeth sylfaenol (BL) ar gyfer hereditament gan ddefnyddio'r fformiwla:

Os yw'r hereditament yn bodloni'r amodau i fod yn gymwys am Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach (SBRR):

$$\frac{A \times 0.535}{E}$$

Ym mhob achos arall:

$$A \times 0.535$$

Lle:

- **A** yw'r gwerth ardrethol ar gyfer hereditament ar restr leol neu restr ganolog fel ar 31 Mawrth 2023;
- 0.535 yw'r lluosydd a bennwyd ar gyfer 2022-23; a
- **E** yw'r swm sy'n gymwys i'r hereditament diffiniedig ar 31 Mawrth 2023 yn unol â Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Busnesau Bach) (Cymru) 2017 - mae hyn yn pennu faint o SBRR y mae'r hereditament yn gymwys i'w gael.

4.3.2 Cyfrifwch y swm tybiannol a godir (NCA) ar gyfer hereditament gan ddefnyddio'r fformiwla:

Os yw'r hereditament yn bodloni'r amodau i fod yn gymwys am SBRR:

$$\frac{A \times B}{E}$$

Ym mhob achos arall:

$$A \times B$$

Lle:

- A yw'r gwerth ardrethol ar gyfer yr hereditament ar restr leol neu restr ganolog fel ar 1 Ebrill 2023;
- B yw'r lluosydd ardrethu annomestig ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023, a bennir gan Weinidogion Cymru yn ôl paragraff 4B o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988; a
- E yw'r swm sy'n gymwys i'r hereditament diffiniedig ar 1 Ebrill 2023 yn unol â Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Busnesau Bach) (Cymru) 2017.

4.3.3 Cymharwch y rhwymedigaeth sylfaenol â'r swm tybiannol a godir. Mae gan yr hereditament hawl i ryddhad lle mae'r cynnydd mewn rhwymedigaeth yn fwy na £300:

$$NCA > (BL + 300)$$

4.3.4 Cyfrifwch y swm a godir ar gyfer y diwrnod perthnasol yn unol ag adran 43, 45 neu 54 o Ddeddf 1988, fel y bo'n briodol, wedyn lleihewch y swm hwnnw yn ôl lefel y rhyddhad trosiannol sy'n gymwys ar gyfer y flwyddyn berthnasol gan ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:

Ar gyfer blwyddyn sy'n dechrau 1 Ebrill 2023:

$$\frac{(NCA - BL) \times 0.67}{366}$$

Ar gyfer blwyddyn sy'n dechrau 1 Ebrill 2024:

$$\frac{(NCA - BL) \times 0.34}{365}$$

4.3.5 Ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2025, mae'r swm a godir yn cael ei leihau yn ôl sero trwy ryddhad trosiannol, er y gall rhyddhadau eraill barhau i fod yn gymwys.

4.3.6 Os byddai cymhwyso'r fformiwlâu uchod, mewn unrhyw flwyddyn, yn arwain at ffigur negyddol, yna bydd y swm a godir yn sero.

4.4 Pennir NCA yn seiliedig ar y ffiniau, fel y'u diffinnir uchod, sy'n gymwys ar 1 Ebrill 2023. Defnyddir hyn i bennu faint o ryddhad a fydd yn gymwys ym mhob blwyddyn. Nid yw'r NCA yn cael ei ail-gyfrifo ar 1 Ebrill 2024. Effaith cyfrifo lefel y rhyddhad sy'n gymwys yn y modd hwn yw y bydd yn ofynnol i'r trethdalwr dalu costau unrhyw gynnydd mewn rhwymedigaeth oherwydd pwysau chwyddiant yn 2024-25, a adlewyrchir mewn cynnydd yn y lluosydd. Mae'r rhyddhad a gyfrifir ar 1 Ebrill 2023 yn cael ei ddiodynu o'r swm a godir am y diwrnod perthnasol.

- 4.5 Os oes newid yng ngwerth ardrethol yr hereditament yn ystod y cyfnod rhyddhad trosiannol, er enghraifft oherwydd apêl, yna caiff yr NCA ei ail-gyfrifo gan ddefnyddio'r gwerth ardrethol newydd.
- 4.6 Mae'r Rheoliadau hefyd yn dirymu Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2016 na fyddant yn ofynnol o 1 Ebrill 2023 ymlaen, gan y bydd y rhestr ardrethu berthnasol yn cael ei chau.

5. Ymgynghori

- 5.1 Ni chafodd setliad cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 ei gadarnhau cyn Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU ar 17 Tachwedd 2022. I gael effaith o 1 Ebrill 2023, rhaid i'r Rheoliadau fod mewn grym cyn 1 Ionawr 2023. O ganlyniad i'r cyfyngiadau amseru hyn, nid yw'r Rheoliadau wedi bod yn destun ymgynghoriad. Mae'r Rheoliadau o fudd i drethdalwyr ac maent wedi'u seilio ar y rhai a ddatblygwyd i ddarparu rhyddhad trosiannol yn dilyn ailbrisiad 2017 ac mae Llywodraeth Cymru yn hyderus y byddant yn cyflawni'r bwriad polisi.

RHAN 2: ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Opsiynau

6.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddio hwn (RIA) yn cyflwyno tri opsiwn mewn perthynas â darparu rhyddhad trosiannol yn dilyn ailbrisiad NDR 2023. Mae'r opsiynau a ystyriwyd fel a ganlyn:

- Opsiwn 1 - Gwneud dim;
- Opsiwn 2 – Rhoi rhyddhad trosiannol i fusnesau bach; a
- Opsiwn 3 – Gwneud y Rheoliadau.

7. Costau a manteision

Opsiwn 1 – Gwneud dim

7.1 Ni fyddai opsiwn 1 yn gofyn am unrhyw newid deddfwriaethol. Ni fyddai unrhyw ryddhad trosiannol yn cael ei ddarparu a byddai rhaid i unrhyw drethdalwr gyda chynnydd yn eu rhwymedigaeth NDR yn dilyn yr ailbrisiad dalu eu rhwymedigaeth lawn (yn ddarostyngedig i unrhyw ryddhad presennol) o 1 Ebrill 2023.

Costau

7.2 Hwn yw'r opsiwn sylfaenol ac felly ni fyddai unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru na'r awdurdodau lleol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

7.3 O dan yr opsiwn hwn, byddai'n ofynnol ar unwaith i drethdalwyr dalu unrhyw gynnydd mewn rhwymedigaeth yn dilyn ailbrisiad llawn. Cynhwysir enghreifftiau darluniadol yn Nhabl 1.

Tabl 1: Newidiadau rhwymediaeth darluniadol o dan Opsiwn 1

£

Gwerth ardrethol		Rhwymedigaeth flynyddol		Rhwymedigaeth		
Rhestr 2017	Rhestr 2023	Rhestr 2017	Rhestr 2023	2023-24	2024-25	2025-26
6,000	7,000	0	624	624	624	624
6,000	12,000	0	6,420	6,420	6,420	6,420
10,000	15,000	3,567	8,025	8,025	8,025	8,025
10,000	20,000	3,567	10,700	10,700	10,700	10,700
15,000	17,000	8,025	9,095	9,095	9,095	9,095
15,000	25,000	8,025	13,375	13,375	13,375	13,375
30,000	40,000	16,050	21,400	21,400	21,400	21,400
30,000	50,000	16,050	26,750	26,750	26,750	26,750
100,000	130,000	53,500	69,550	69,550	69,550	69,550
100,000	150,000	53,500	80,250	80,250	80,250	80,250
1,000,000	1,300,000	535,000	695,500	695,500	695,500	695,500
1,000,000	1,500,000	535,000	802,500	802,500	802,500	802,500

Noder: Seilir yr enghreifftiau ar Luosydd 2022-23. Nid yw amcangyfrifon rhwymediaeth darluniadol yn cyfrif am ryddhadau eraill (ac eithrio SBRR) y gall trethdalwr fod yn gymwys amdanynt neu gynydd mewn chwyddiant yn y lluosydd yn y blynyddoedd i ddod.

Manteision

- 7.4 Pe na bai rhyddhad trosiannol yn cael ei ddarparu, byddai'r gweithdrefnau presennol yn cael eu cadw, gan osgoi unrhyw feichiau gweinyddol newydd. Ni fyddai angen diwygiadau i systemau meddalwedd yr awdurdodau lleol a dim costau gweinyddol cysylltiedig yn sgil cymhwyso'r rhyddhad i filiau trethdalwyr cymwys.
- 7.5 Byddai peidio â darparu cynllun rhyddhad hefyd yn sicrhau bod y system NDR yn dal yn gymharol syml, sy'n golygu bod trethdalwyr yn gallu cyfrifo eu rhwymedigaeth yn hawdd o flwyddyn i flwyddyn.
- 7.6 Ni fyddai unrhyw wanhau hefyd ar yr egwyddor o ailbrisiadau rheolaidd, y bwriedir iddynt sicrhau bod rhwymedigaethau NDR yn adlewyrchu'n gywir yr amrywiad mewn gwerthoedd rhent yn y farchnad eiddo ac i aiddosbarthu ardrethi a delir yn unol â hynny.

Anfanteision

- 7.7 Os dewisir yr opsiwn hwn, byddai effaith lawn ailbrisiad yn cael ei deimlo gan drethdalwyr ar unwaith. Ni fyddai hyn yn cefnogi nod polisi Llywodraeth Cymru o gefnogi trethdalwyr y bydd eu rhwymedigaeth NDR yn cynyddu o ganlyniad i ailbrisio.

Opsiwn 2 – Rhoi rhyddhad trosiannol i fusnesau bach

- 7.8 Opsiwn 2 fyddai gwneud Rheoliadau i ddarparu rhyddhad trosiannol sydd wedi'i dargedu at fusnesau bach y mae'r ailbrisio yn effeithio arnynt. Byddai'r rhyddhad trosiannol hwn yn rhoi i drethdalwyr y cafodd eu hawl i SBRR ei leihau ac y cafodd eu rhwymedigaeth ei chynyddu fwy na £100, yn dilyn yr

ailbrisiu, gynydd graddedig yn eu rhwymedigaeth dros gyfnod o ddwy flynedd. Byddai'r rhyddhad hwn yn debyg iawn i'r hyn a ddarparwyd yn dilyn ailbrisiad 2017.

Costau

- 7.9 Byddai'r opsiwn hwn yn cefnogi tua **6,900 o eiddo**, ar gost o £8.3m i Lywodraeth Cymru yn 2023-24 a £4.2m yn 2024-25, sef cyfanswm o £12.5m dros gyfnod o ddwy flynedd.
- 7.10 Mae rhyddhad trosiannol yn gymhleth i'r awdurdodau lleol ei weinyddu ac fe allai ofyn am newidiadau meddalwedd costus. Byddai darparu rhyddhad ar sail debyg iawn i'r hyn a ddarparwyd yn dilyn ailbrisiad 2017 yn lleihau'r baich gweinyddol a'r gost i'r awdurdodau lleol.
- 7.11 Byddai'r costau ychwanegol i drethdalwyr sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 1 yn cael eu lleihau ar gyfer trethdalwyr gyda chynnydd mewn rhwymedigaeth o fwy na £100 ac sy'n gymwys i gael SBRR cyn yr ailbrisiu. Byddai'n ofynnol i drethdalwyr nad ydynt yn gymwys dalu cynnydd eu rhwymedigaeth lawn yn dilyn yr ailbrisiu o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Cynhwysir enghreifftiau darluniadol yn Tabl 2.

Tabl 2: Newidiadau rhwymedigaeth darluniadol o dan Opsiwn 2

Gwerth ardrethol		Rhwymedigaeth flynyddol		Rhwymedigaeth		
Rhestr 2017	Rhestr 2023	Rhestr 2017	Rhestr 2023	2023-24	2024-25	2025-26
6,000	7,000	0	624	206	412	624
6,000	12,000	0	6,420	2,119	4,237	6,420
10,000	15,000	3,567	8,025	5,038	6,509	8,025
10,000	20,000	3,567	10,700	5,921	8,275	10,700
15,000	17,000	8,025	9,095	9,095	9,095	9,095
15,000	25,000	8,025	13,375	13,375	13,375	13,375
30,000	40,000	16,050	21,400	21,400	21,400	21,400
30,000	50,000	16,050	26,750	26,750	26,750	26,750
100,000	130,000	53,500	69,550	69,550	69,550	69,550
100,000	150,000	53,500	80,250	80,250	80,250	80,250
1,000,000	1,300,000	535,000	695,500	695,500	695,500	695,500
1,000,000	1,500,000	535,000	802,500	802,500	802,500	802,500

Noder: Seilir yr enghreifftiau ar Luosydd 2022-23. Nid yw amcangyfrifon rhwymedigaeth darluniadol yn cyfrif am ryddhadau eraill (ac eithrio SBRR) y gall trethdalwr fod yn gymwys amdanynt neu gynydd mewn chwyddiant yn y lluosydd yn y blynyddoedd i ddod.

Manteision

- 7.12 Mae sylfaen drethi NDR yng Nghymru yn gogwyddo'n helaeth tuag at eiddo sydd â gwerthoedd ardrethol isel. Mae dros hanner yr eiddo yn gymwys am SBRR ar hyn o bryd. Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi rhyddhad trosiannol i bob un o'r trethdalwyr hynny gyda chynnydd mewn rhwymedigaeth o fwy na £100.

7.13 Gan y gall NDR fod yn gyfran uwch o orbenion ar gyfer busnesau llai a gall fod gan y busnesau hyn hefyd lai o gyfle i addasu i gynnydd mewn costau yn y tymor byrrach (er enghraifft drwy gynyddu prisiau neu leihau costau cynhyrchu), mae'n bosibl y gall busnesau bach sy'n cael SBRR ar hyn o bryd gael eu heffeithio gan gynnydd yn eu biliau i raddau cymharol mwy na busnesau mwy er y bydd hyn yn dibynnu ar natur y busnes. O'r herwydd, byddai targedu cynllun rhyddhad trosiannol sydd i'w ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru at fusnesau bach yn ddefnydd effeithiol o adnoddau cyfyngedig.

Anfanteision

7.14 Byddai'r cynllun yn cefnogi nifer cymharol fach o fusnesau. Mae targedu rhyddhad trosiannol at drethdalwyr â hawl i gael llai o SBRR yn golygu na fyddai unrhyw eiddo sy'n uwch na'r trothwy gwerth ardrethol SBRR uchaf o £12,000, cyn yr ailbriso, yn elwa. Hefyd, gan fod SBRR yn seiliedig ar werth eiddo yn hytrach na maint y busnes, mae'n bosibl na fydd rhai busnesau bach yn elwa ar y cynllun.

7.15 Mae rhyddhad trosiannol yn gymhleth i'r awdurdodau lleol ei weinyddu ac i drethdalwyr ei ddeall ac amcangyfrif eu rhwymedigaeth. Yn ystod unrhyw gyfnod trosiannol, gall rhai eiddo sydd â phrisiau tebyg dalu biliau ardrethi gwahanol.

7.16 Byddai'r cynllun rhyddhad trosiannol yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu na fydd yr arian sydd wedi'i ddyrannu i'r cynllun ar gael i gefnogi blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru.

Opsiwn 3 – Gwneud y Rheoliadau

7.17 Byddai opsiwn 3 yn rhoi rhyddhad trosiannol i bob trethdalwr sydd â chynnydd mewn rhwymedigaeth o fwy na £300, yn dilyn yr ailbriso. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn pennu unrhyw derfyn uchaf ar gymhwysedd ar gyfer rhyddhad trosiannol. Byddai cynnydd mewn rhwymedigaeth yn cael ei gyflwyno'n raddol dros ddwy flynedd, fel y nodir ar gyfer Opsiwn 2.

Costau

7.18 Byddai'r opsiwn hwn yn cefnogi amcangyfrif o **39,600 o eiddo**, ar gost o £75.2m i Lywodraeth Cymru yn 2023-24 a £37.6m yn 2024-25, sef cyfanswm o £112.8m dros gyfnod o ddwy flynedd.

7.19 Gall rhyddhad trosiannol yn gymhleth i'r awdurdodau lleol ei weinyddu ac fe allai ofyn am newidiadau meddalwedd costus. Dylai darparu rhyddhad yn seiliedig ar y dull cyffredinol a gymerwyd yn dilyn ailbrisiad 2017, gyda newidiadau i ehangu cymhwysedd, helpu i leihau'r baich gweinyddol a'r gost i'r awdurdodau lleol. Ni fu modd amcangyfrif y gost drosiannol i'r awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

- 7.20 Byddai'r costau ychwanegol i drethdalwyr sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 1 yn cael eu lleihau ar gyfer pob trethdalwr sydd â chynnydd mewn rhwymedigaeth o fwy na £300. Cynhwysir enghreifftiau darluniadol yn Tabl 3.

Tabl 3: Newidiadau rhwymedigaeth darluniadol o dan Opsiwn 3

£

Gwerth ardrethol		Rhwymedigaeth flynyddol		Rhwymedigaeth		
Rhestr 2017	Rhestr 2023	Rhestr 2017	Rhestr 2023	2023-24	2024-25	2025-26
6,000	7,000	0	624	206	412	624
6,000	12,000	0	6,420	2,119	4,237	6,420
10,000	15,000	3,567	8,025	5,038	6,509	8,025
10,000	20,000	3,567	10,700	5,921	8,275	10,700
15,000	17,000	8,025	9,095	8,378	8,731	9,095
15,000	25,000	8,025	13,375	9,791	11,556	13,375
30,000	40,000	16,050	21,400	17,816	19,581	21,400
30,000	50,000	16,050	26,750	19,581	23,112	26,750
100,000	130,000	53,500	69,550	58,797	64,093	69,550
100,000	150,000	53,500	80,250	62,328	71,155	80,250
1,000,000	1,300,000	535,000	695,500	587,965	640,930	695,500
1,000,000	1,500,000	535,000	802,500	623,275	711,550	802,500

Noder: Seilir yr enghreifftiau ar Luosydd 2022-23. Nid yw amcangyfrifon rhwymedigaeth darluniadol yn cyfrif am ryddhadau eraill (ac eithrio SBRR) y gall trethdalwr fod yn gymwys amdanynt neu gynnydd mewn chwyddiant yn y lluosydd yn y blynyddoedd i ddod.

Manteision

- 7.21 Byddai'r opsiwn hwn yn cefnogi pob trethdalwr sydd â chynnydd mewn rhwymedigaeth o fwy na £300. Ni fyddai'n gyfyngedig i'r rhai sy'n cael SBRR ar hyn o bryd. Byddai'r dull hwn yn llawer mwy hael nag Opsiwn 2, a'r rhyddhad a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dilyn yr ailbrisiad blaenorol yn 2017.
- 7.22 Mae busnesau wedi wynebu newidiadau a heriau economaidd sylweddol ers yr ailbrisiad blaenorol ac, yn arbennig, oherwydd effaith pandemig y coronafeirws a'r pwysau costau byw diweddar. O ganlyniad, gall llawer o drethdalwyr ar gyfer eiddo canolig a mawr gael trafferth i dalu eu cynnydd llawn mewn rhwymedigaeth yn y flwyddyn gyntaf yn dilyn ailbrisiad. Gallai rhai o'r trethdalwyr hyn hefyd weld y cynnydd mwyaf mewn rhwymedigaeth. Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau bod pob rhan o'r sylfaen drethu yn cael eu cefnogi mewn modd syml a chyson.
- 7.23 Byddai'r dull hwn yn darparu rhyddhad sydd mor eang â'r hyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr, o ran cymhwysedd, ond byddai'n sicrhau bod pob trethdalwr yn talu ei rhwymedigaeth lawn erbyn blwyddyn derfynol arfaethedig y rhestr ardrethi, cyn yr ailbrisiad arfaethedig nesaf. Byddai hyn yn cymryd i ystyriaeth cynigion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i symud at ailbrisiadau tair blynedd.

Anfanteision

- 7.24 Byddai darparu rhyddhad trosiannol mwy hael nag a ddarparwyd yn dilyn ailbrisiad 2017 yn fwy costus nag Opsiynau 1 a 2. Gallai hefyd godi disgwyliadau rhanddeiliaid y bydd dull o'r fath yn nodwedd ar yr ailbrisiadau arfaethedig amlach.
- 7.25 Mae rhyddhad trosiannol yn gymhleth i'r awdurdodau lleol ei weinyddu ac i drethdalwyr ei ddeall ac amcangyfrif eu rhwymedigaeth. Yn ystod unrhyw gyfnod trosiannol, gall rhai eiddo sydd â phrisiau tebyg dalu biliau ardrethi gwahanol.
- 7.26 Byddai'r cynllun rhyddhad trosiannol yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu na fyddai'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu i'r cynllun ar gael i gefnogi blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru.

8 Crynodeb o'r opsiynau

- 8.1 Ni fyddai gwneud dim yn darparu unrhyw ryddhad trosiannol i drethdalwyr yng Nghymru y cynyddir eu rhwymedigaeth NDR o ganlyniad i'r ailbrisiad a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2023. Felly, nid Opsiwn 1 yw'r dull a ffefrir.
- 8.2 Byddai Opsiwn 2 yn targedu rhyddhad trosiannol at y busnesau lleiaf yng Nghymru, ond ni fyddai'n cefnogi busnesau canolig a mawr gyda chynnydd mewn rhwymedigaeth. Byddai cymhwysedd ar gyfer rhyddhad trosiannol yn llawer mwy cyfyngedig na'r hyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer trethdalwyr yn Lloegr, gan roi busnesau Cymru o dan anfantais.
- 8.3 Byddai'r dull a ddisgrifir gan Opsiwn 3 yn darparu rhyddhad trosiannol nad yw cymhwysedd ar ei gyfer yn gyfyngedig i unrhyw sector neu faint o eiddo o fewn sylfaen drethu NDR. Gallai gefnogi dros bum gwaith cymaint o fusnesau ag Opsiwn 2. Opsiwn 3, felly, yw'r opsiwn a ffefrir.

9 Dyletswyddau

- 9.1 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.** Bydd darparu cynllun rhyddhad trosiannol yn cynorthwyo trethdalwyr yr effeithir arnynt gan gynnydd yn eu gwerth ardrethol ar ôl ailbrisiad, drwy gyflwyno'n raddol unrhyw gynnydd yn eu rhwymedigaeth, gan gefnogi busnesau a'r economi yng Nghymru. Bydd hyn yn cefnogi sefydlogrwydd yn sylfaen drethi NDR ac yn cyfrannu at amcan llesiant Cymru lewyrchus.
- 9.2 **CCUHP.** Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.
- 9.3 **Y Gymraeg.** Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal wedi'i nodi mewn perthynas a'r ddeddfwriaeth hon.
- 9.4 **Cydraddoldebau.** Ni nodwyd effeithiau penodol, boed cadarnhaol neu negyddol, ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).
- 9.5 **Sector Gwirfoddol.** Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar y sector gwirfoddol.

10 Asesu'r Gystadleuaeth

- 10.1 Mae prawf hidlo cystadleuaeth wedi'i gynnal ar y rheoliadau a bernir bod y risg o effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth yn isel.